

Ensembles Ifanc Dyfed

Dyma fenter gyffrous newydd i offerynwyr ifanc sy'n chwarae fel aelod o ensemble.

Mae Cerddorion Ifanc Dyfed yn cynnig cyfle i ensembles ifanc elwa o ddsbarth meistr unigol yn Ionawr 2018. Cynhelir y dosbarthiadau meistr mewn ysgol neu ysgolion ledled siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro, a'r nod yw rhoi cyngor ac arweiniad ar y canlynol:

- gwrando, edrych a rhyngweithio
- dehongliad cerddorol
- cydbwysedd wrth chwarae
- brawddeg, chwarae glân, a deinameg
- tiwnio a thonyddiaeth
- datblygu sgiliau llwyfannu a thechneg perfformio

Bydd y dosbarthiadau meistr dan arweinyddiaeth Triawd Piano Galos - Felicity Broome-Skelton, Heidi Parsons a James Longford. Maent wedi gweithio mewn sawl arddull cerddorol, o opera i pop, a gydag ystod o ensembles, bandiau a cherddorfeydd.

Disgwylir i bob ensemble baratoi un darn sy'n para hyd am 5 munud.

Os ydych chi'n perfformio o sgôr, dylid darparu copi ar ddiwrnod y dosbarth meistr.

Diffiniad o Ensemble

Rydym yn diffinio ensemble fel grŵp o **ddau* neu fwy** o offerynwyr sy'n perfformio heb arweinydd, gyda llinell pob aelod yn annibynnol.

*nid yw unawdydd gyda chyfeiliant yn cael ei ystyried yn ensemble.

Pwy all gymryd rhan?

Mae'r dosbarth meistr yn agored i ensembles ifanc sydd a phob aelod:

- o dan 19 oed ar Fedi 1^{af} 2018
- yn byw, neu'n derbyn addysg llawn amser, o fewn ffiniau siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro.

Gall yr ensemble berfformio mewn unrhyw arddull gerddorol e.e. clasurol, jazz, gwerin, blws, roc, pop, cerddoriaeth y byd.

I wneud cais am ddsbarth meistr, cwblhewch y ffurflen gais a'i e-bostio at Cathy Morris - morris.c@ntlbusiness, neu danfonwch gopi yn y post i'r cyfeiriad a nodir. Os oes gennych gwestiwn, cysylltwch â Cathy drwy e-bost, neu ffoniwch 029 2019 0176.

Y dyddiad cau yw **Dydd Gwener Rhagfyr 15^{fed} 2017**.

Ffurflen Gais Ensembles Ifanc Dyfed

Young Ensembles of Dyfed Application Form

Gofynnir i'ch ensemble adnabod un aelod fel y prif berson cyswllt gyda Cherddorion Ifanc Dyfed.
 Your ensemble should appoint one person who will act as the lead contact with Young Music Makers of Dyfed

Enw Prif Gyswllt Lead Contact Name			
Ysgol/Coleg School/College			
E-bost Prif Gyswllt Lead Contact Email			
Ffôn (cartref) Tel (home)		Ffôn Symudol Mob	

Manylion yr Ensemble - Plis nodwch enw a manylion pob aelod, gan gynnwys y prif gyswllt
Ensemble Details – Please include names and details of all members including lead contact

Enw / Name	Offeryn / Instrument	Oed / Age
Manylion am y darn o gerddoriaeth yr ydych chi'n bwriadu ei chwarae Details of the piece of music you're intending to play		
Cyfansoddwr (os yn berthnasol) Composer (if applicable)		
Teitl Title	Symudiad (os yn berthnasol) Movement (if applicable)	
Arddull Gerddorol Musical Genre	Clasurol / Jazz / Gwerin / Blws / Roc / Pop / Cerddoriaeth y Byd / Arall Classical / Jazz / Folk / Blues / Rock / Pop / World / Other	
Llofnod Rhiant / Athro Parent/Teacher's Signature		Dyddiad Date

Dychwelwch y ffurflen hon, erbyn **dydd Gwener Rhagfyr 15fed 2017** at:

Please return this form, by **Friday 15 December 2017** to:

Cathy Morris, Young Music Makers of Dyfed • Cerddorion Ifanc Dyfed

Llys Melus, 75 Roath Court Road, CARDIFF · CAERDYDD CF24 3SF

☎ 029 2019 0176 ✉ morris.c@ntlbusiness.com